

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 207

Pris 80c

Mis Tachwedd 2018



Steddfod i'w Chofio



PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Llundain: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn Jenni Jones-Annetts

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gwefan: menter.aerffili.cymru/ 

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru

Gweplyfr/ Facebook: Papur Bro Cwmni

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

DEDDF NEWYDD PREIFATRUYDD—DARLLENWCH

Os ydych yn darllen “Cwmni”, gall hyn olygu fod eich data personol yn cael ei ddal gennym. Fel y gwyddoch, mae deddfau diogelu data wedi newid ers mis Mai, ac felly mae gennym yn awr Rybuddion Preifatrwydd mewn lle sydd yn egluro wrthyf sut y gallwn brosesu eich data personol, fel cwsmeriaid neu gleientiaid inni, ac ar ba sail cyfreithiol yr ydym yn gallu gwneud hynny, a sut yr ydym yn cadw eich data personol yn saff.

Os hoffech weld copi o'r Rhybudd Preifatrwydd, gallwch wneud hynny drwy ymweld â gwefan y papur: entercaerffili.cymru/ 

Oedfaon Tachwedd Capeli Sir Caerffili

Bedyddwyr Tonyfelin

4 ydd 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins
11eg 10.30 a 6.00 : Mr Mansel Jones
18fed 10.30 a 6.00 : Yn Bethel
25ain 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins

Annibynwyr, Bethel

4ydd 10.30 Sul y Chwirydd
11eg 10.30. Parch Robert Owen Griffith
18fed 10.30. Dr. John Gwynfor Jones
25ain 10.30 a 6 o.g. Gyda Tonyfelin.

Penuel, Rhymni

Mr Geoff Leyshon
Dr Gwynfor Jones
Rev. Michael Marsden
Rev. Richard Grey

Capel y Groeswen

3:00 y.p.
11eg REMEMBRANCE SERVICE
Mr Patrick Thomas

Ysgolion Cymraeg – Y Dyfodol

Ymddengys cynlluniau'r Awdurdod Addysg Lleol (AALl), sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn addawol iawn o ran datblygu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae galw ar i bob AALl yng Nghymru gynllunio darpariaeth addysgol yn unol â chyfres o ganllawiau penodol. Un ystyriaeth bwysig iawn yn hyn yw targed Llywodraeth y Cynulliad i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae ymgyrchwyr dros yr iaith a thros addysg Gymraeg wedi'u plesio gan gynigion yr awdurdod ar gyfer y rhaglen "Ysgolion yr C21ain". Yn ogystal ag ateb gofynion y galw cynyddol am Ysgolion Cymraeg, mae'r cynllun llawn yn fodd o fynd ati i adnewyddu a/ neu adeiladu ysgolion newydd o fewn y sir.

Yn dechrau ym mhen uchaf Cwm Rhymni mae cynnig i ail-leoli disgyblion Ysgol Brynawel (ysgol cyfrwng Saesneg) i ysgolion Rhymni Uchaf ac Ysgol Idris Davies, a leolir rhwng Pontlotyn ac Abertyswg. Wrth wneud hyn byddant yn gallu symud Ysgol y Lawnt o'i lleoliad presennol, sef hen dŷ meistri'r gweithfeydd haearn, i adeiladau eithaf newydd Brynawel. Bydd y fenter gyfan yn costio dros £4.8m.

Ganol Cwm Rhymni mae bwriad i uno dwy ysgol, Ysgol Gynradd Gilfach Fargod ac Ysgol y Parc, y ddwy eisoes yn gweithio o dan yr un pennaeth. Yna ail-wampio Ysgol y Parc (sydd yr ochr draw i'r ffordd i hen safle uchaf Ysgol Gyfun Cwm Rhymni). Y bwriad wedyn yw symud Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod i'r safle hon yn Heol y Parc. Cost y gwaith ym Margod fydd £5,893,390.



Dyma adeiladau presennol Ysgol Gymraeg Gilfach ond ysgol Iau (oed 7 - 11) i fechgyn oedd hon. Arferai'r merched oed Iau aros yn yr ysgol gynradd drws nesa, dim ond y bechgyn ddeuai i'r safle hon. Newidiwyd y drefn pan agorwyd ysgol Heolddu.

Bydd croeso mawr i adeilad newydd ar gyfer Ysgol Cwm Gwyddon yn Abercarn. Hen ysgol uwchradd yw hon, yr adeiladau lle dechreuodd Ysgol Gwynllyw yn 1988. Ond mae hi'n rhy bell oddi wrth rannau o'i dalgylch a llawer yn rhy fach ar gyfer ysgol sy'n tyfu mor gyflym. A nawr, gan fod Ysgol Uwchradd Cwmcarn wedi cau, bwriedir dymchwel y rhan fwyaf o'r adeiladau yno gan godi ysgol newydd sbon ar gyfer Cwm Gwyddon ar y safle.



Dyma adeilad tri llawr Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon a fydd yn symud i safle Cwmcarn yn y blynyddoedd nesaf. Adeiladwyd hon yn Ysgol Uwchradd Fodern.

Ar waelod y cwm mae bwriad adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgol Tŷn y Wern yn Nhretomos ar safle Ysgol Uwch Bedwas. Byddai ysgol bresennol Tŷn y Wern wedyn ar gael ar gyfer Ysgol Gymraeg hir ddisgwyliedig yn ardal Bedwas, Tretomos a Machen. Mae plant o'r ardal hon wedi gorfod teithio i mewn i Gaerffili ar gyfer eu haddysg Gymraeg ers degawdau!

Bydd y cynllun ar gyfer Tretomos a Chwm Gwyddon yn costio dros £13 miliwn. Ond wrth edrych ar yr holl gostau uchod dylid sylweddoli nad arian ar gyfer ein Hysgolion Cymraeg yw'r holl symiau a nodir. Fe welir fod bron pob un o'r cynlluniau hefyd o fudd i'r ysgolion lleol cyfrwng Saesneg, ac mae'r gwaith ar eu cyfer nhw'n cyfrif am lawer o'r gost. Mae yna hefyd nifer o gynlluniau gan y Sir ar gyfer ysgolion lleol sydd â dim byd i'w wneud ag Ysgolion Cymraeg, megis yn Llancaeach, Nelson a Phlas-y-Felin a Sant Iago yng Nghaerffili. Hefyd, rhaglen dros gyfnod o 5 i 10 mlynedd yw hon.

Yn ogystal â hyn, dan gynllun Llywodraeth Cymru, bydd gwaith ehangu rhai o'r Ysgolion Cymraeg sy'n bodoli eisoes megis, ysgolion Ifor Bach, Y Castell, Bro Allta a Phenalltau.

Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Dyma'r tîm gweithgar sydd yn sicrhau defnydd o'r Gymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – ynghyd â sawl cyfrifoldeb arall!.

Anwen Cullinane



Cefais fy ngeni a'm magu ar fferm yng Nghapel Iwan, pentref bach ger Castell Newydd Emlyn. Mynychais Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi hyd at TGAU ac yna symud i Ysgol Gyfun Emlyn i wneud Lefel A. Symudais i fyw i fwrdeistref Caerffili 20 mlynedd yn ôl gan gychwyn fy ngyrfa fel

swyddog clerigol yng Nghlwb Golff Bryn Meadows. Ar ôl blwyddyn o brofiad cefais swydd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel cynorthwy-ydd gweinyddol. Yn 2003 cychwynnais gwrs tystysgrif dysgu ym maes Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET). Yn dilyn cwblhau'r cwrs hwn es ymlaen i gyflawni fy ngradd BA gydag Anrhydedd mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET).


Ers 2001 rwyf wedi bod yn gweithio yn yr Uned Polisi, yn benodol yn gweithio yn y maes Cymraeg, sydd ers 2008 yn cynnwys y maes Cydraddoldeb hefyd. Rwy nawr yn gweithio fel Uwch Swyddog Polisi - Cydraddoldeb a'r Gymraeg, ac yn rheolwr llinell i dîm o gyfieithwyr a swyddog hyrwyddo a hyfforddiant yr awdurdod.

Jaci Evans

Yn enedigol o Drawsfynydd ac yn byw yng Nghaerffili ers dros ddeg ar hugain o flynyddoedd bellach.

Dechreuais fy ngyrfa yn gweithio i Heddlu De Cymru. Yna cefais dri o blant a phenderfynu newid trywydd i fod yn athrawes ysgol gynradd. Mwynheais dros ugain mlynedd yn y byd addysg cyn penderfynu troi'n llaw at gyfieithu.

Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o dîm gweithgar tu hwnt yma yng Nghyngor Caerffili a hefyd yn mwynhau'r profiad eleni o ddilyn cwrs cyfieithu ar y pryd ym Mhrifysgol Y Drindod.



Catrin Lotwick

Fy enw i yw Catrin Lotwick a chefais fy magu yng Nghaerdydd a mynychu Ysgol Gynradd Bro Eirwg, wedyn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac rwyf yn dal i fyw yn y ddinas. Es i Brifysgol Abertawe ac ennill gradd anrhydedd yn y Gymraeg. Fy swydd gyntaf oedd fel cyfieithydd yng Nghyngor Caerdydd. Rwyf wedi bod yn cyfieithu yng Nghyngor Caerffili ers Medi 2004, yn gyntaf ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf ac wedyn yn llawn amser i'r Uned Bolisi, felly fi yw'r cyfieithydd sydd wedi bod yma hiraf!



Rwy'n hoff iawn o gerddoriaeth, ac rwyf wedi ymuno â chôr Eisteddfod Caerdydd a fu'n perfformio yng Nghanolfan y Mileniwm ddechrau mis Awst.

Tim Jilg

Symudais i Gaerdydd o Warren, Ohio ym 1995 i wneud M.A. ym Mhrifysgol Caerdydd, a dechreuais

ddysgu Cymraeg bron yn syth ar ôl cyrraedd. Ar ôl pum mlynedd o ddysgu, dechreuais ddysgu Cymraeg i Oedolion, a gwnes i hynny am dros bymtheg mlynedd mewn nifer o brifysgolion, gan gynnwys Prifysgol Rio Grande yn ne Ohio, ble roeddwn yn gyfarwyddwr Canolfan Madog ar gyfer Astudiaethau Cymreig am ddwy flynedd.



Dechreuais gyfieithu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 2016 ac wedi mwynhau'r profiad o ddysgu'r grefft.

Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg (parhad)

Richard Timothy

Dw i'n wreiddiol o'r Rhyl, Gogledd Cymru, ac yn byw yng Nghaerffili gyda'm gwraig Lyn. Rhyngom ni mae gennym dri mab.

Cefais yrfa amrywiol o fod yn Therapydd Iaith a Lleferydd Cynorthwyol i fod yn Weinidog yng Nghastell Newydd Emlyn a Chapel Iwan (Gweinidog ar Anwen mewn gwirionedd ar y pryd!).

O ganol yr 80au i ganol y 90au roeddwn i'n Gynhyrchydd / Cyfarwyddwr Teledu Rhaglenni Ffeithiol, BBC Cymru Wales (gyda Mandy!).

Roeddwn yn Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus RSPCA Cymru (1995-97); ond roeddwn i'n gweld eisiau Cynhyrchu / Cyfarwyddo Teledu gymaint nes imi gymryd cytundeb 6 mis fel Cynhyrchydd Teledu / Cyfarwyddwr Cwmni Teledu Annibynnol 'Rugby Vision' ... yn teithio rywfaint o'r byd yn paratoi fideos newyddion ar baratodau Cymru ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd.

Dychwelais i'r Sector Iechyd fel Swyddog Ymchwilio i Ombwdsman y Gwasanaeth Iechyd; yna Swyddog Polisi Iechyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg; a secondiad tair blynedd fel Rheolwr Uned Iaith Gymraeg y GIG yn Llywodraeth Cymru. Ond roedd fy mhrif gyfraniad yn y Sector Iechyd fel Dirprwy Reolwr Cyfathrebu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, cyfnod pan yr oeddwn yn arwain Cyfathrebu ar gyfer y Gwasanaethau Brys (Iechyd) ar Uwchgynhadledd NATO a'r Gemau Olympaidd, a hefyd digwyddiadau mawr megis damweiniau Trelái 'a Thrychineb Glofa'r Gleision.

Rydw i nawr yn Gyfieithydd yma yn CBSC ac yn Gofrestrydd Achlysurol.



“Common Voice”

a wnewch chi gyfrannu tuag at Common Voice Cymraeg?

Project Common Voice yw'r ymgais i greu data rhydd ar gyfer adnabod lleferydd, fel bod peiriannau yn gallu cofnodi'r hyn rydych yn ei ddweud wrthyn nhw, ei ddeall ac ymateb iddo.

Mae hyn yn galluogi darparu rhaglenni a pheiriannau ar gyfer y deillion a'r anabl, cynorthwywyr personol, llywio mewn ceir, ac ati. Mae'r rhain eisoes yn bodoli yn Saesneg, yr her nawr yw eu cael yn y Gymraeg.

Rydym yn chwilio am bobl sy'n siarad Cymraeg o bob rhan o Gymru a'r byd i gyfrannu. Gorau po fwyaf o amrywiaeth mae'r peiriant yn ei gael, y gorau i gyd y bydd yn gallu eu dehongli.

Gan fod offer Common Voice ar wefan ac ap mae modd cyfrannu yn unrhyw le ac ar unrhyw bryd. Mae modd cyfrannu drwy ddarllen brawddegau a phytiau a thrwy ddilysu lleisiau pobl eraill. Mae'r ddwy elfen yn bwysig.

Mae modd defnyddio eich cyfrifiadur eich hun os oes ganddo fe feicroffon a chlustffonau/uchelseinydd neu os gallir cysylltu rhai iddo. Mae modd defnyddio'r ap ar gyfer iPad neu iPhone diweddar hefyd.

Mae Common Voice Cymraeg yn bartneriaeth rhwng Mozilla Foundation, gwneuthurwr y porwr Firefox, Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor a Meddal.com.

Mae modd cyfrannu at Common Voice Cymraeg yn: voice.mozilla.org/cy/new a'r ap iPhone neu iPad o'r App Store yn: <https://itunes.apple.com/us/ap/project-common-voice-by-mozilla/id1240588326>

Mae rhagor o wybodaeth a chyfarwyddid i'w cael ar wefan Meddal.com

Diolch yn fawr,

Rhoslyn Prys

Meddal.com

Llywelyn Bren - 3

Yn rhifyn diwethaf *CwmNi* disgrifiwyd marwolaeth erchyll Llywelyn Bren, er gwaethaf ymdrechion rhai o'r arglwyddi Normanaidd fel Wmffre de Bohun, Arglwydd Henffordd, a'r Iarll Rhosier Mortimer i arbed ei fywyd. Nhw oedd wedi arwain ymgyrch y Normaniaid yn erbyn Llywelyn, nhw oedd yn bresennol pan ildiodd e, ac eto roedden nhw wedi addo eiriol drosto. Perswad arglwyddi megis y rhain sy'n esbonio pam y cafodd cynifer o ddilynwyr Llywelyn eu dirwyo'n unig. Yn unol â dymuniad eu harglwydd, ni fu'n rhaid iddyn nhw wynebu cosb eithaf ac erchyll y bradwr fel y gwnaeth eu harglwydd.

Yr unig reswm gwirioneddol dros ddiennyddio Llywelyn Bren oedd casineb Huw Despenser tuag ato. Ond un enghraifft yn unig o ymddygiad creulon a thrahaus Huw Despenser tuag at ei gyd-ddyn yw 'r modd yr erlidiodd Llywelyn. Roedd arglwyddi eraill y Mers wedi dysgu ei casáu, tra roedd ymddygiad dewr a hunan-aberthol Llywelyn Bren wedi ennill eu hedmygedd.

Erbyn 1321 roedd yr arglwyddi hyn yn ogystal â'r Cymry wedi troi yn erbyn Despenser. Cyflwynwyd deiseb i'r brenin Edward II, yn gofyn iddo ddiswyddo Despenser – ac un o'r rhesymau sy'n cael ei restru yn y ddeiseb yw'r ffordd y deliodd gyda Llywelyn Bren. Pan wrthododd y brenin gais ei farwniaid, ymosodon nhw a'r Cymry lleol ar diroedd Despenser ym Morgannwg. Mae'n bur debyg i Lleucu, gwraig Llywelyn, a garcharwyd gyda'i phlant yng nghastell Caerdydd, gael ei rhyddhau yn y cyfnod hwn. Derbyniodd Iarll Henffordd bob un o feibion Llywelyn i'w wasanaeth hefyd ar yr un adeg.

Methu a wnaeth gwrthryfel 1321. Er i'r brenin alltudio Despenser a'i deulu o'i lys, dim ond dros dro oedd hynny. Llwyddodd Edward i gasglu byddin at ei gilydd, a threchodd luoedd y gwrthryfelwyr ym 1322.

Ond un enghraifft yn unig o ymddygiad creulon a thrahaus Huw Despenser tuag at ei gyd-ddyn yw 'r modd yr erlidiodd Llywelyn.

Bu farw Iarll Henffordd yn yr ymladd, a charcharwyd teulu Llywelyn unwaith eto – yng nghastell Bryste y tro hwn. Ond nid yw eu stori'n gorffen yma, chwaith.

Er bod Iarll Henffordd wedi marw, a'r Iarll Mortimer yn garcharor yn Nhŵr Llundain, roedd ymddygiad trahaus a chreulon Despenser, a ffafiaeth afresymol y brenin tuag ato, yn troi mwy a mwy o arweinwyr y Normaniaid yn erbyn y brenin ei hun yn ogystal â Despenser. Llwyddodd Mortimer i ffoi o'r carchar ym 1323. Aeth i Ffrainc a llwyddodd i godi byddin yno gyda'r bwriad o ddiorseddu'r brenin.

Cafodd Despenser yn ei dro ei grogi, ei ddiberfeddu a'i chwarteru – yr union gosb arteithiol a orchmynodd i Llywelyn Bren...

Ym Medi 1326 ymosododd Mortimer a'i fyddin ar dde-ddwyrain Lloegr. Gyda nhw roedd Edward, mab y brenin ac etifedd coron Lloegr, a'r frenhines Isabella, ei fam. Eu bwriad oedd gosod y bachgen ifanc ar orsedd Lloegr yn lle ei dad. Croesawodd Llundain y gwrthryfelwyr, a ffodd y brenin a Despenser i'r gorllewin. Erbyn hydref 1326 roedden nhw'n ceisio ennill cefnogwyr ym Morgannwg, gan aros am gyfnod yng nghastell Caerffili. Ond ofer fu eu hymdrechion. Cipiwyd y brenin ar Dachwedd 16, ac fe'i carcharwyd. Trosglwyddwyd coron Lloegr i'w fab, a goronwyd yn frenin Edward III yn Ionawr 1327.

A Despenser? Cafodd ef yn ei dro ei grogi, ei ddiberfeddu a'i chwarteru – yr union gosb arteithiol a orchmynodd i Llywelyn Bren...

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Mae un ar ddeg gair yn y pos yma.
Pethau ydyn nhw mae'r wrach wedi
cymysgu i mewn i'r crochan Ydych
chi'n gallu eu gweld nhw?

MALWEN	BROGA	NEIDR
BRESYCH	SEBON	ASGWRN
BLEW	LLWCH	MADARCH
GWAIR	MWYDYN	

Mae'r cynhwysion mae'r wrach wedi doddi yn y crochan wedi'u cymysgu lan.

Ydych chi'n gallu eu hysgrifennu allan yn gywir?

1. bones
2. derin
3. blew
4. wirag
5. chwell
6. warngs
7. chamrad
8. dwymyn
9. menwal
10. chebrys
11. arbog

Mae'r atebion ar waelod Colofn y Dysgwyr

Merched y Wawr

Cangen Cwm Rhymni 2017-2018



Cadeirydd

Elin Jones, 5 Oakfield Street, Ystrad Mynach CF82 7AF

(01443 816366 ☎ elinphillips3@btinternet.com

Is-gadeirydd

Maureen Potter, 5 Coed y Bryn, Highfields,

Coed Duon NP12 1HA

(01495 220214E ☎ mo.dave16@live.com

Cysylltydd a Thrysorydd

Jenni Jones-Annetts, 4 Heol y Dreylan, Caerffili CF83 3ES

(02920 868236 ☎ j.jonesannetts@gmail.com

Ysgrifennydd Cymdeithasol

Gaynor Williams, 4 Graig Road, Hengoed CF82 7JJ

(01443 814079 ☎ gaynorw555@gmail.com

Anthem Merched y Wawr

O eiriau mwyn fy iaith,

Anwylaf chwi,

A'u plethu wnaif yn dynn

O gylch fy nghalon i;

Ni chaiff na gormes hir na'r un sarhad

Fydh ddwyn oddi arnom ni ein hiaith a'n gwlad.

Byrdwn:

Ein hiaith a'n gwlad, fe'u caraf fwy a mwy;

Fe bery popeth hardd tra paront hwy.

Tâl Aelodaeth: £25 Ymwelwyr Achlysurol: £3

Digwyddiadau Cenedlaethol:

Ffair Aeaf Llanelwedd Dydd Llun a Dydd Mawrth 26^{ain} a'r 27^{ain} o Dachwedd

Coginio – Pot o Bicl (dim ond winwns, picalili, llysiau, gyrcins) Crefft – Coeden Nadolig. Gwau pâr o Sanau. Clytwaith Nadoligaidd

Cwis Hwyl Cenedlaethol MyW Lleoliad i'w gadarnhau Dydd Gwener, 9^{fed} o Dachwedd

Cinio Llywydd y De Gwesty'r Cliff, Gwbirt. Dydd Sadwrn 16^{eg} o Fawrth

Ceir gwybodaeth bellach am y mudiad trwy ymweld â www.merchedywawr.cymru

Gwyneth Davies - Priodas ei mab yng Ngwlad Thai

Nos Fercher, 21^{ain} o Dachwedd
7.00

Ysgol Penalltau, Cwm Calon
Noson addas i ddysgwyr

Cyswllt: Gaynor Williams
Croeso cynnes



Ymweliad MyW ag IWCS

Dyna beth oedd noson braf a hwylus!

Criw Merched y Wawr y cwm ag IWCS yn dod at ei gilydd yng Nghlwb Rygbi Penallta fel rhan o raglen amrywiol MyW. Clwb Penallta yw lleoliad rheolaidd ymarfer IWCS bob nos Fawrth o 6 tan 8. Lle digon canolog i gwrdd gyda bwrllwm o weithgareddau amrywiol yn y clwb ar nos Fawrth.



Ar ôl taith heriol i rai o gwmpas cylchdro Pwll y Pant dyma griw ohonom yn cyrraedd y clwb, pob un yn aelod o MyW ac ambell un yn aelod o IWCS. Paratowyd y lolfa yn gysurus ar ein cyfer gyda seddi i'r gynulleidfa, ac aelodau IWCS a'u hofferynnau yn eistedd o'n cwmpas. Roedd system sain addas a sgrîn bwrpasol i ni gyd-ganu gydag aelodau'r gerddorfa.

Arweinydd y grŵp yw Dafydd Roberts. Y mae wedi ymgymryd â'r prosiect ers rhyw bedair blynedd bellach ac y mae'n dysgu tair noson yr wythnos mewn lleoedd gwahanol. Ers cychwyn y prosiect i arwain defnydd cymdeithasol o'r iaith y mae ei ddysgwyr brwd o'r offeryn a'r iaith wedi gweld drysau newydd yn agor a'u cylch o gyfeillion yn ymestyn yn rheolaidd. Y mae aelodau IWCS yn cael hwyl wrth ddysgu caneuon a cherddoriaeth amrywiol ond mae'r "Maestro" yn mynnu ein bod yn datblygu dulliau amrywiol o chwarae yn hytrach na'r strymio parhaus a glywir yn aml.

Cawsom ragflas o garolau Nadolig â chaneuon Cymraeg poblogaidd. Cyfeiliodd y gerddorfa i'r cyfan a braf oedd ymuno yn y cyd-ganu. Y mae'r rhaglen flynyddol yn amrywiol ei natur: cyngherddau, sioeau, gwyliau ac ymweliadau â nifer o leoedd gwahanol gan gynnwys Y Brifwyl a Neuadd Dewi Sant. Y mae nifer y grŵp yn amrywio ond ar noson dda ceir tua 20 o aelodau yn dod at ei gilydd gan gynnwys dysgwyr cychwynnol a rhai mwy talentog yn eu plith. Ceir amrywiaeth yn eu gallu ieithyddol hefyd, gyda dysgwyr yr iaith yn mwynhau cyd-gymdeithasu gyda'r rhai rhugl.

Cyn bo hir bydd y grŵp yn perfformio yn eglwys Ystrad Mynach, eglwys Llantrisant a Neuadd Llancafach. Ar y gorwel y mae cyffro wrth ystyried taith dramor i Norwy ...ond stori arall ydy honno.

Ie wir, noson hwyliog yng nghwmni Cymry'r Cwm a rheiny yn arfer eu Cymraeg wrth gymdeithasu a dysgu offeryn. Dyma un ffordd o gyrraedd ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yr iaith yn cael ei defnyddio'n gymdeithasol wrth ymhél â byd yr ukulele.





Eisteddfod y Cymoedd 2018

Ein plaser yw llongyfarch y sawl fu wrthi'n trefnu Eisteddfod y Cymoedd hynod lwyddiannus eleni eto ac am gael cofnod lawn o'r canlyniadau. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi detholiad o'r gwaith buddugol yn ein rhifyn nesaf.

Cystadleuaeth	1af	2il	3ydd
Unawd BI 2-4	Eliw Rhys	Finley Burrows	Poppy-Rose Vaughan
Unawd BI 5-6	Ela Mai Williams	Meleri Godfrey	Siena Missen
Llefaru BI 2-4	Nel Williams	Gwenan Gibbins	
Llefaru BI 5-6	Megan Godfrey	Geraint Barnes	Gruffudd Williams
Llefaru I Ddysgwyr BI 6 ac iau	Ellie-Mai White		
Unawd offerynnol BI 6 ac iau	Erin Fflur Jardine		
Cyflwyniad cerddorol / theatrig	Ysgol Gymraeg Caerffili	Canadram	
Côr BI 6 ac iau	Ysgol Gymraeg Caerffili	Ysgol y Lawnt	
Dawnsio Disgo Unigol BI 6 ac iau	Lena Davies		
Dawnsio Grwp Gwerin BI 6 ac iau	Canadram		
Perfformiad mwyaf addawol cynradd	Erin Fflur Jardine		
Unawd BI 7-9	Elen Morlais	Mali Rhys	Logan Burrows
Unawd BI 10-13	John Liddington	Anni Davies	Elli Saunders Jones
Llefaru unigol oedran uwchradd	Nansi Rhys Adams	Anni Davies	Iestyn Jones
Dawnsio Gwerin unigol uwchradd	Ioan Williams	Iestyn Jones	Morus Jones
Dawnsio Disgo Unigol Uwchradd	Ioan Williams	Awen Davies	Ruby Shorney
Dawnsio Grwp Unrhyw gyfrwng - Uwchradd	Grwp Lladin y Gwyndy	Grwp Disgo Ysgol y Gwyndy	Grwp Stryd Ysgol y Gwyndy
Unawd offerynnol Uwchradd	Nick Francis	Megan Thomas	Kai Fish
Perfformiad mwyaf addawol uwchradd	John Liddington		
Unawd lleisiol agored	Aled Wyn Thomas	Rhys Griffiths	Carwen George
Unawd canu emyn	Lynwen John	Rhys Griffiths	Aled Wyn Thomas

Canlyniadau Eisteddfod y Cymoedd (parhad)

Cystadleuaeth	1af	2il	3ydd
Unawd sioe gerdd agored	Rachael Stephens	Anni Davies / Nansi Rhys Adams	
Deuawd lleisiol agored	Seren a Sioned	Rachel a Hannah	Shannon a Bethany
Llefaru unigol agored	Seren Haf MacMillan	Kelly Hanney	Rachael Stephens / Gaenor Jones
Grwp llefaru agored	Lleisiau Rhymni	Aelwyd Cwm Rhondda	Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Côr leuenctid Bl 13 ac lau	Côr leuenctid Caerffili		
2awd/3awd/4awd cerdd dant	Efan ac Ela	Seren Haf a Hannah	
2awd/3awd/4awd clocsio	Elen a Ioan	Iestyn a Morus	
Parti neu gôr cerdd dant	Criw Caerdydd	Parti'r Efail	
Parti / côr gwerin agored	Parti'r Efail		
Côr Agored	Côr y Gleision	Côr Aelwyd Cwm Rhondda	Côr Cwm Ni
Tlws Dawnsio Trwy'r Cwm	Grwp Lladin y Gwyndy		
Llenyddiaeth cynradd	Beca Dwyrdd	Hawys Jones	Gwydion Jones / Alice Todd
Llenyddiaeth uwchradd	Cai Dwyrdd	Annie Davies	Geraint ap Cook
Limerig	Morus Jones	Ifan Jones	
Cerdd	John Roberts	Megan Thomas	Cyril Smith
Englyn	John Lloyd		
Llinell coll	"Gwladys"		
Cyfres o luniau - Chwedlau	Arwen Teagle	Linda Ganatsou	Ellie Crimmings
Darn o Gelf - Teulu	Linda Ganatsou	Linda Ganatsou	Mali Crimmings

Mae nifer yn derbyn y papur bro yn fisol dros y We. Mae yna fanteision.....

- ♦ Byddwch yn derbyn eich papur yn syth.
- ♦ Byddwch yn gweld pob un dudalen mewn lliw.
- ♦ Byddwch yn arbed papur.

Gyrrwch eich cyfeiriad ebost at y Golygydd, does angen gwneud dim byd mwy!

“Cofio”


Mae’n anodd iawn dychmygu’r awyrgylch yng Nghymru gan mlynedd yn ôl. Roedd y Rhyfel wedi cipio cenhedlaeth gyfan o fechgyn ifanc gan adael teuluoedd mewn galar a’r rhai a ddychwelodd wedi gweld erchyllterau yn y ffosydd. Roedd na bobl oedd yn gwrthwynebu’r ymladd ac eraill oedd yn argyhoeddedig fod rhaid ymladd l’r eithaf i orchfygu’r Almaen. Roedd na rieni wedi eu siomi gan arweinwyr fel John Williams, Brynsiencyn oedd wedi tywys eu meibion i ryfel, ac roedd na bobl oedd wedi pydru byw mewn carchardai oherwydd eu gwrthwynebiad i’r ymladd. Yng nghanol hyn i gyd roedd pobl yn canu caneuon am eu profiadau cymysg gan ddefnyddio tonau cyfarwydd eu dydd. Roedd na ganu am hiraeth, am ddewrder, am gariad, am oferedd y cyfan a hyd yn oed am y *margarine* yr oedd yn rhaid dygymod ag o.

Er mwyn rhoi blas i ni ar y cyfnod y mae Radio Cymru yn atgyfodi rhai o’r caneuon hynny yn y rhaglen *Rhyfelgan* ddarlledir ar y 9fed a’r 11eg. Tachwedd. Bydd Cerddorfa Genedlaethol y BBC yn cyfeilio i Shan Cothi, Rhys Meirion a Trystan Llŷr Griffiths ac fe fydd Sian James yn canu rhai alawon gwerin yn ogystal. Ond er mwyn dod â’r profiad yn nes atom y mae rhai o gyflwynwyr Radio Cymru yn cyflwyno monologau arbennig o waith Aled Jones Williams er mwyn dod â phrofiad y milwr, y recriwtiwr, y fam, y gwrthwynebydd cydwybodol, y cariad, y newyddiadurwr, y nyrs a’r gwleidydd yn fyw i ni. Bydd yn brofiad newydd i Aled Hughes, Ifan Evans, John Hardy, Dafydd Meredydd, Lisa Gwilym, Dei Tomos, Nia Roberts, Caryl Parry Jones a Tudur Owen i gyflwyno cymeriadau amrywiol o 1918 y gallant uniaethu efo nhw. Ond y mae sawl un o’r cyflwynwyr yn ymwybodol o aelodau o’u teuluoedd a fu’n ymladd yn y rhyfel, y mae rhai wedi ymweld â beddau eu perthnasau yn Ffrainc. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno gan Beti George.

“Bwriad y rhaglen ydi nodi canrif ers diwedd y rhyfel, a cofio cyfnod – mewn ffordd sydd yn ein gosod ni cyn agosed â phosib at brofiad pobl 1918,” meddai Ynyr Williams, golygydd dros dro Radio Cymru. “Gobeithio y bydd ein gwrandawyr sydd yn teimlo mor agos at ein cyflwynwyr yn cael eu gosod yng nghanol profiadau pobl ar ddiwedd y rhyfel drwy gyfrwng y rhaglen.”

“Yn Fflach y Fellten”

Llugoer, a dweud y lleiaf, oedd ymateb Cylch Darllen Cwmni i nofel ddiweddaraf Geraint Vaughan Jones. Yn sicr doedd hi ddim yn bodloni’r broliant a’i disgrifiodd fel nofel “frawychus”neu “aflonydd”. Na, chwaith yn “Stori iasoer a fydd yn cydio yn nychymyg pob darllenydd.” Ond roedd yn haeddu’r clod wrth ddweud fod hon yn waith gan “un o awdurodd mwyaf crefftus ein cenedl”.



Roedd disgwyliadau yn uchel o gofio fod y awdur wedi ennill Gwobr Goffa Daniel Owen dair gwaith, y tro cyntaf yma yn y Genedlaethol yng Nghwm Rhymni yn 1990 gyda “Yn y Gwaed”. Ac roedd mwy nag un aelod wedi mwynhau sawl un o’r deg nofel o’i eiddo.

Cafwyd disgrifiad cartrefol o hen gymeriadau ardal hanner canrif neu fwy yn ôl wrth i’r awdur alw i gof ei fagwraeth ym Mlaenau Ffestiniog. Ond y plot oedd yn ddifffgiol yn hytrach na’r cefndir a’r cymeriadau. Teimlai’r aelodau nad oedd y teitl chwaith yn rhyw briodol iawn.

Gydag ond naw deg un o dudalenau mae’n llyfr y gellid ei ddarllen mewn un eisteddiad lle ac ni chawsom ein “swyno â phlot sy’n cadw’r tudalennau i droi”. Yn wir, teimlwyd bod diffyg argyhoeddiad yn yr holl stori. Pam byddai dyn yn ei oed a’i amser yn symud i mewn i dŷ mor annymunol? Doedd dim byd newydd yn hanes mab y plas yn marw yn y Rhyfel Byd Cyntaf a thranc y forwyn ifanc. Anodd credu, hefyd, i Maldwyn Davies, y prif gymeriad, fod wedi colli cysylltiad cyhyd â’i unig fab.

Mae’r grŵp nawr yn edrych ymlaen at ein cyfarfod nesaf ac ymweliad yr awdur Jon Gower a fydd yn dod atom i drafod ei nofel “Düwch” am ddau o’r gloch brynhawn Llun y 5ed o Dachwedd. Dewch i ymuno â ni.

TRYCHINEB SENGHENYDD

Pan fydd pobl yn siarad am Drychineb Senghenydd, maen nhw fel arfer yn cyfeirio at Drychineb 1913 ond hwn oedd yr ail Drychineb i ddigwydd yn y pwll.

Digwyddodd yr un cyntaf ar 24ain o Fai 1901. Yn ffodus roedd y glowyr ar ochr arall y pwll wedi dychwelyd i'r wyneb ar ôl eu shifft, ond cafodd 82 o lowyr yn y ffrwydrad eu lladd. Achos y ffrwydrad yn fwyaf tebygol o fod oedd y nwyon gwenynig yn cronni dan ddaear a'r tymheredd uchel yn y pwll.

Yn 1911, pasiwyd y Ddeddf Glowyr a oedd yn cyflwyno llawer o reolau newydd i wneud y pyllau yn fwy diogel. Sut bynnag, roedd perchnogion y pwll wedi methu â dilyn y rheolau Iechyd a Diogelwch newydd oherwydd bod y costau yn rhy uchel. Felly roedd y ddamwain yn aros i ddigwydd a bu ffrwydrad ar 14 Hydref 1913. Hwn oedd y drychineb waethaf yn hanes y pyllau glo ym Mhrydain. Felly, collodd 439 o lowyr, dynion a bechgyn eu bywydau y diwrnod hwnnw. Cafodd 18 o ddynion eu hachub a'u dwyn allan yn fyw o'r pwll. Roedd nifer o'r criw achub hefyd wedi'u hanafu a collodd rhai eu bywydau. Cafodd y gymuned gyfan ei heffeithio gan y drychineb, menywod a gollodd eu gwŷr a'u meibion, a phlant yn colli eu tadau, eu brodyr a'u hewythrod. Agorwyd yr ymchwiliad i'r drychineb ym mis Ionawr 1914.

Cafodd perchnogion y pwll eu cyhuddo o fethu â dilyn y rheolau ysgrifennwyd yn y Ddeddf Pyllau Glo 1911 (Coal Mines Act) ac arweiniodd hyn at farwolaethau cannoedd o lowyr a dinistrio'r gymuned gyfan. Rhoddwyd i berchnogion y pwll ddirwyon o ddeg punt yn unig a pumpunt o ran costau llys.

Codwyd cofeb er cof am y rhai a laddwyd yn y ddamwain yn agos at hen safle'r pwll yn Senghenydd.

Josie

*Dyma'r olaf yn y gyfres o draethodau gan ddysgwyr uwch hyfedredd Coleg Gwent.
Diolchwn i Sean Driscoll am eu trefnu ac edrychwn ymlaen at dderbyn mwy.*

Storïau Annisgwyl

Ond llai na hanner y sesiwn a dreuliwyd ar y llyfr dethol, "Yn Fflach y Feller". Cafwyd llawer mwy o flas yng nghyfarfod mis Hydref ar arlwy gwahanol iawn.

Oherwydd tarodd ein nofelydd lleol i mewn i'n gweld. Roedd Gareth Williams eisoes wedi cynnig rhagflas o'i waith ysgrifennu diweddaraf drwy ebostio'r arlwy atom. Ond na, nid nofel y tro hwn ond, yn hytrach, casgliad o storïau byrion. Roedd rhyw hanner dwsin ohonyn nhw i gyd. Ac er bod y sefyllfa yn dra gwahanol o un stori i'r llall roedd nodwedd gyffredin yn gweu pob un at ei gilydd. A'r llinyn cyswllt oedd, ym mhob un achos, fod rhywbeth rhyfedd yn digwydd na ellid ei egluro - roedd y straeon yn rhyfedd!

Yn "Y Cwch" roedd un morwr yn unig wedi gweld cwch wedi angori oddi ar arfordir Cymru ond fel y Mary Celeste 'slawer dydd doedd dim enaid byw ar ei chyfyl ac, er hynny, hwyliodd i ffwrdd yn y diwedd. Tra yn "Y Pwll" aeth dau gyfaill i lawr i bwl glo dan arweiniad glöwr profiadol. Syrthiodd y to i mewn ond achubwyd y cyfeillion gan ŵr a ddiplannodd wedi iddo eu tywys i ddiogelwch.

Mae'r storïau wedi'u hysgrifennu mewn amryw dafodieithoedd sydd yn gweddu i osodiad y stori ac mae ôl gwaith ymchwil ar y cynnwys. Yn enwedig felly, stori "Y Gymwynas" lle mae'r awdur yn ymdrin yn wybodus ag amryw fathau o gerddoriaeth o jazz i'r clasurol.

Mae'r "Hen Grystyn" yn chwarae ar lun sydd i weld yn ymddangos yn graen pren hynafol mewn capel. A "Y Llythyr" yw un y daw plismon ifanc ar ei draws a chael mai ei dad-cu a'i hysgrifennodd flynyddoedd yn gynt.

Does dim gwybodaeth a gyhoeddir y straeon hyn ond byddai Clwb Darllen Cwmni yn sicr yn cymeradwyo'r gwaith i gyhoeddwyr llyfrau Cymraeg. Diolch, Gareth.



Colofn Dafydd Islwyn

Mae hi'n werth gweld llethrau Cwm Rhymni i'r gogledd o Fargod yn nhymor yr Hydref. Wrth deithio heibio i fynwent Gwaelod y Brithdir mae llethrau Cwm Syfiog yn dwyn i go' englyn J. J. Williams (1869-1954). Lliwiau'r Hydref,

Gwrid y rhos ar frigau'r drain, - dail y coed
O liw cefn yr elain;
Mieri yn aur mirain
A'r perthi'n goelcerthi cain.

Mae'n siŵr iddo yntau sylwi ar y llethrau wrth deithio i fyny'r cwm pan oedd yn byw yn Rhymni. Cofiwn amdano fel gweinidog capel Moriah (A), Rhymni rhwng 1897 a 1903. Cofiwn ef hefyd fel prifardd, Archdderwydd Cymru rhwng 1936 a 1939 a beirniad cadarn ei farn ar yr awdl yn Y Genedlaethol am flynyddoedd. Ef olygodd gyfrol Hedd Wyn, "Cerddi'r Bugail". Nac anghofiwn ei fod yn emynydd cydnabyddedig. Dewiswyd chwech o'i emynau ar gyfer Caneuon Ffydd yn 2001, yn eu mysg, "Ynot, Arglwydd, gorfoleddwn!". Mae ei emyn adnabyddus, "Chwifw'n ein baneri" ymysg ei ddau emyn ar hugain yn Y Caniedydd, 1960. Dychmygaf iddo weithio cwpled clo ail bennill yr emyn,


Dylai gwefus plentyn
Fod yn wefus bur.

ar ôl clywed iaith goch plant Rhymni ar ddechrau'r hen ganrif!

Pedwar deg dau o gasgliadau o chwe emyn gwreiddiol a dderbyniwyd yn y gystadleuaeth yn Y Genedlaethol yng Nghaerffili yn 1950. Gosodwyd pedwar yn y dosbarth cyntaf a'r enillydd oedd Y Parchedig W. Rhys Nicholas, y Bryn, Llanelli ar y pryd. Un o'r emynau oedd "Tyrd atom ni, O! Grëwr pob goleuni". Cyhoeddwyd dau o'r emynau yn Y Caniedydd ynghyd â phump arall.

Enillwyd y wobr gan W. Rhys Nicholas gyda'i emyn yn codi o'i brofiad pan oedd yn ŵr ieuanc, "Tydi a wnaeth y wyrth O Grist Fab Duw" - emyn sydd wedi ennill calon y genedl.

Yn 1946 apwyntiwyd W. Rhys Nicholas yn is-ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr yn Abertawe. Pan gyrhaeddodd yno roedd y pwyllgor a ddewiswyd i baratoi Y Caniedydd yn ailgydio yn y gwaith a ohiriwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.



Dewiswyd W. Rhys Nicholas yn gofnodydd ac yn ysgrifennydd i olygyddion yr emynau. Elfed oedd y cadeirydd ar y dechrau a J J. Williams, Treforys, ac eraill ar y pwyllgor

Meddai W. Rhys Nicholas am y profiad: "Deffrodd fy niddordeb mewn emynau.... oni bai am y profiad, ni fuaswn wedi mynd ati i gyfansoddi emynau fel y gwneuthum!"

Yng Nghaneuon Ffydd cyhoeddwyd dau ddeg pump o emynau W. Rhys Nicholas, yn eu mysg tri o Gasgliad Caerffili a thri a gyhoeddwyd yn Y Caniedydd. Mae emyn arall: "Fy enaid gogonedda", Rhif 188 yn "Caneuon Ffydd" ac yn y ddau gyhoeddiad uchod. Yn Eisteddfod Rhys Thomas, Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan yn 1967 gosodwyd cystadleuaeth gweithio emyn o dri phennill wyth llinell. Enillwyd y wobr, tri chan punt, gan W. Rhys Nicholas gyda'i emyn yn codi o'i brofiad pan oedd yn ŵr ieuanc, "Tydi a wnaeth y wyrth O Grist Fab Duw" - emyn sydd wedi ennill calon y genedl. Eleni mae hi'n hanner canrif cyfansoddi'r dôn "Pantyfedwen".

Yn Eisteddfod 1968, am yr ail dro yn hanes yr eisteddfod, gofynnwyd am dôn i emyn buddugol 1967. Cofnodwyd yr hanes yn "Llais Llwyfan Llanbed" 2004: "Ganwyd y dôn Pantyfedwen yn 1968, ond o'r pentwr ddaeth i law nid hi ddewiswyd gan y beirniaid ond tŷn arall na fyddai'n bosibl i unrhyw gynulleidfa ei chanu heb ymarfer cyson. Felly gofynnwyd i'r beirniaid i ail-ddewis, ac i'r brig daeth Pantyfedwen". Y cyfansoddwr oedd Eddie Evans (1890-1984). Onid ydyw clywed ei englyn i gofio ei fam yn rhoi'r un ias i ni a gwrando ar Pantyfedwen? Dyma'r englyn,

Mam

Gwên siriol oedd ei golud – a gweini'n
Ddi-gwyn oedd ei gwynfyd;
Bu'n fyw'n dda, bu fyw'n ddiwyd
A lle bu hon mae gwell byd.

Helo bawb. Gobeithio eich bod wedi defnyddio'r idiomaau o'r golofn yma yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'n ffordd dda o wella'ch Cymraeg a gwneud argraff hefyd! Y tro yma mae pob idiom yn cynnwys lliw. Ffeindiwch y lliw i ddechrau ac wedyn beth am roi cynnig ar ysgrifennu pob idiom mewn brawddeg. Weithiau mae'r lliw wedi troi yn ferf, fel cochi : troi yn goch.

mae pethau'n edrych yn ddu iawn : *things are looking very bad*

nid aur yw popeth melyn : *all that glitters is not gold*


ar lasiad y dydd : *early in the morning*

wedi llwydo : *has become mouldy*

wedi rhuddo : *scorched*

fy machgen gwyn : *my dear boy*

cochi at ei glustiau : *to blush all over his face (up to his ears!)*



gwneud argraff : to make an impression yn cynnwys : contains rhoi cynnig ar : have a go at
mewn brawddeg : in a sentence troi : turn, become berf : a verb rhudd : hen air am coch

Dyma'r atebion i'r posau ar dudalen Posau'r Plant.

Sawl un gawsoch chi'n iawn?



Dyma'r cynhwysion o grochan y wrach wedi'u hysgrifennu'n iawn. Gawsoch chi nhw?

Sebon 2. Neidr 3. Blew 4. Gwair 5. Llwch 6. Asgwrn 7. Madarch 8. Mwydyn
 9. Malwen 10. Bresych 11. Broga

mentercaerffili.cymru

bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913

Gweithdy Argraffu Lino



Dydd Sadwrn Tachwedd 10fed

10:00 - 15:00

Canolfan Siloh, Ystrad Mynach.

£15

Dewch i ddysgu y sgil o argraffu lino o dan arweiniad yr arlunydd Aron Rhys. Bydd angen darparu bwyd eich hunain ar gyfer cinio.

Rhaid bwcio cyn Hydref 26

TAITH I FFAIR AEAF LLANELWEDD

Tachwedd 26 2018



Ymunwch â ni ar daith i Ffair Aeaf Llanelwedd. Cyfle i fynd o amgylch y safle ac wedyn stop am pryd o fwyd ar y ffordd adref.

Rhaid prynu tocyn mynediad eich hunain.

£5 at gost tranfnidiaeth, cadarnhawn lleoliadau codi lleol cyn y daith.

Cysylltwch i gadarnhau lle cyn Tachwedd 16.

SADWRN SIARAD

Hydref 27 2018

10:00-12:00

Caffi'r Ffynnon

Capel Argoed, NP120HG



2018

Ffair Nadolig

Menter Caerffili

yn

Llancaiach Fawr Nelson



AM DDIM

Tachwedd 24

11:00-3:00

Grotto Sion Corn

Ceirw

Heini o Cyw

Perfformiadau ysgolion

Bwyd a diod

Stondinau anrhegion

Creu Torch Nadolig

Celf a chrefft

A llawer mwy...

Hanes Cwm Ni

8/11/18 Dr Neville Evans


Gwyddonwyr Cymru

10/1/19 Yr Athro Keith Bush

Cyfraith ac Anrhefn yng
Ngorllewin Gwylt Cymru - Hanes
Cythryblus Pwll Esgair-Y-Mwyn

7/2/19 Allan Cook

Te a China



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.

Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL



Canolfan Siloh, Ystrad Mynach



BYW Y BEIBL

Cyfarfod defosiynol misol – croeso i bawb
10.30 – 11.30 ar fore Llun

5 Tachwedd - Pŵer Iesu (Luc 6: 12 - 19)

Astudiaeth Lluniaeth Gweddi

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk /

www.siloh.co.uk

CF82 7AF 01443 813617

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf

Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Tachwedd 5ed – Y Dŵch gan John Gower
BYDD JOHN GOWER YN YMUNO Â NI!!

Rhagfyr 3ydd – Hen Bethau Anghofiedig
gan Mihangel Morgan

Ionawr 7fed – Digon i'r Diwrnod
gan Geraint Evans

Chwefror 4ydd – Fel Aderyn
gan Manon Steffan Ros

penneyje961@gmail.com

Croeso Cynnes i Bawb

Côr Cwm Ni

CYNGERDD NADOLIG BLYNYDDOL

Eglwys y Drindod Sanctaidd
Ystrad Mynach

7:00 o'r gloch

Nos Fawrth, 4ydd o Ragfyr

Croeso Cynnes i bawb

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Dydd Gwener 9 Tachwedd

"Arwyr Cymru"

Jon Gower

2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili
Cofiwch hefyd am y bore coffi

Bedwas, Caffi'r Graig
bob dydd Llun o 10.30 ymlaen

Cyswllt:

penneyje961@gmail.com

Festri Tonyfelin, Caerffili

Llenyddda

Byddwn yn trafod cerddi'r
Goron Eisteddfod eleni gyda

Yr Athro E.Wyn James

Nos Iau, 8fed o
Dachwedd
7:00 tan 9:00

Croeso Cynnes i Bawb

Clwb Cerdd Cwm Rhymni

Canolfan Gristnogol Siloh
Ystrad Mynach

JAZZ

**Myfyrwyr Coleg
Drama a Cherdd Cymru**

24^{ain} o Dachwedd
2:30

£8 (£7.50 i bensiynwyr)



Os am brynu lluniau cysylltwch ag
Irfonbennett@me.com